**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 07-02(p6)**

Dyddiad: 24 Ebrill 2002
Amser: 2.00 - 5.30
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
Teitl: YSTADEGAU CYMORTH RHANBARTHOL DEWISOL (RSA) AR GYFER 2001-02

## Pwrpas

Hysbysu'r Pwyllgor o nifer a dosbarthiad y cynigion Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn ystod 3 chwarter cyntaf 2001-02. Defnyddir y fformat y gofynnwyd amdano yn EDC 02-01 wrth gyflwyno gwybodaeth yn y papur hwn. Dyma'r trydydd adroddiad ar y fformat hwn, fel y crybwyllwyd eisoes, ni ellir gwneud unrhyw gymariaethau hanesyddol.

## Cyflwyniad

Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) yn gymorth i gefnogi prosiectau buddsoddi cyfalaf yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir sy'n creu swyddi newydd neu'n diogelu swyddi sydd eisoes yn bodoli. Dyma'r prif ffordd o roi cymhelliant ariannol i ddiwydiannau er mwyn eu hannog i fuddsoddi a thyfu yng Nghymru. Nod y cynllun yw lleihau anghydraddoldeb o ran y cyfleoedd am swyddi ardaloedd a gynorthwyir ac mewn ardaloedd nas cynorthwyir. Mae RSA yn gynllun cymeradwy o dan ganllawiau cymorth rhanbarthol cenedlaethol y Comisiwn Ewropeaidd ac fe'i gweithredir yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban o dan fframwaith gyffredinol Prydain.

## Manylion y cynigion a wnaed ers 1 Ebrill 2001

- Yn ystod naw mis cyntaf 2001-02, gwnaed 193 cynnig RSA i gwmnïau, sef cyfanswm o £100.6 miliwn. Mae dros £449 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau cysylltiedig a rhagwelir y bydd y prosiectau yn creu 6,264 o swyddi newydd ac yn diogelu 3,288 o swyddi cyfredol. Derbyniwyd 172 o'r cynigion hyd yn hyn.

Dadansoddiad fesul mathau o brosiectau:

| **Math o Brosiect** | **Nifer** | **Y Swm a Gynigir**<br><br>**£m** | **Costau'r prosiect**<br><br>**£m** | **Swyddi Newydd** | **Swyddi a Ddiogelir** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwmnïau/ gweithfeydd newydd | 56 | 31.0 | 112.8 | 2,682 | 137 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgaredd newydd ar safle presennol | 37 | 14.1 | 36.0 | 766 | 853 |
| Trosglwyddo i safle newydd | 34 | 13.5 | 141.2 | 965 | 199 |
| Moderneiddio/ ehangu safleoedd presennol | 64 | 41.6 | 158.2 | 1,839 | 1,983 |
| Prynu Cyfran Rheolwyr | 2 | 0.4 | 1.3 | 12 | 116 |

- Gwnaed mwy na hanner y cynigion i gwmniau llai na 10 mlwydd oed

- Gwnaed 59 cynnig, gwerth £29.3m a 2,875 o swyddi newydd/wedi'u diogelu, i'r sector gwasanaethau. Mae'r 1340 o gynigion sy'n weddill (£71.3m a 6,677 o swyddi) yn gysylltiedig â'r sector gweithgynhyrchu.

- Mae cyfartaledd lefelau cyflog pob prosiect yn amrywio o £7,000 i £30,375, a thua £16,000 yw'r cyfartaledd cyffredinol ar draws pob prosiect.

2. Dyma'r gwahaniaeth rhwng mentrau bach a chanolig eu maint (SMEs) a chwmniau mawr:

| | **Nifer** | **Gwerth y cynnig £** | **Cost y Prosiect £** | **Swyddi Newydd** | **Swyddi Wedi'u Diogelu** | **Cyfartaledd Amser ar Gyfer Prosesu (Diwrnod)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawr | 38 | 73,233,276 | 318,606,112 | 3,295 | 2,985 | 62 |
| SMEs | 155 | 27,404,336 | 131,594,142 | 2,969 | 303 | 50 |

3. Dyma'r gwahaniaeth rhwng cwmniau'r DU a chwmnïau tramor:

| | **Nifer** | **Gwerth y cynnig £** | **Cost y Prosiect £** | **Swyddi Newydd** | **Swyddi Wedi'u Diogelu** | **Cyfartaledd Amser ar Gyfer Prosesu (Diwrnod)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DU | 157 | 42,991,612 | 237,172,698 | 3,682 | 928 | 55 |
| Cwmnïau Tramor | 36 | 57,646,000 | 212,313,090 | 2,582 | 2,360 | 60 |

Roedd tua 19% o'r cynigion yn rhai ar gyfer prosiectau gan gwmnïau tramor. Mae'r rhain yn cynrychioli tua 57% o gyfanswm y grant a gynigir yn llawn a 52% o gyfanswm y swyddi sy'n debygol o gael eu creu neu'u diogelu. Mae hyn yn dangos bod maint y prosiectau sy'n eiddo i gwmniau o'r tu allan i'r DU dipyn yn fwy. Mae cyfartaledd y grant ar gyfer pob swydd yn is ar

gyfer cwmniau'r DU, sef £9,326 o'i gymharu â £11,665 ar gyfer cwmniau tramor.

4. Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r cynigion fesul ardal Awdurdod Unedol:

| Cyfanswm ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Unedol | Nifer | Gwerth y Cynnig | Cost y Prosiect | Swyddi Newydd | Swyddi Wedi'u Diogelu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | | |
| Blaenau Gwent | 14 | 12,900,200 | 37,289,250 | 445 | 390 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 9 | 6,067,000 | 13,591,800 | 304 | 515 |
| Caerffili | 16 | 9,880,000 | 43,091,050 | 872 | 29 |
| Caerdydd | 20 | 20,664,500 | 151,853,585 | 1,319 | 147 |
| Sir Gaerfyrddin | 10 | 10,445,312 | 26,005,179 | 312 | 838 |
| Ceredigion | 2 | 275,000 | 1,201,875 | 33 | 0 |
| Conwy | 4 | 275,000 | 846,240 | 20 | 2 |
| Sir Ddinbych | 9 | 4,435,000 | 17,789,791 | 175 | 225 |
| Sir y Fflint | 14 | 3,130,000 | 20,249,220 | 490 | 77 |
| Gwynedd | 9 | 1,780,000 | 4,511,148 | 242 | 9 |
| Merthyr Tudful | 4 | 910,000 | 2,650,000 | 71 | 5 |
| Castell-nedd a Phort Talbot | 20 | 2,671,000 | 10,444,428 | 256 | 257 |
| Casnewydd | 6 | 1,430,000 | 7,444,200 | 228 | 0 |
| Sir Benfro | 7 | 562,000 | 1,827,464 | 54 | 32 |
| Powys | 2 | 1,290,000 | 7,541,000 | 83 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 19 | 5,565,600 | 20,759,124 | 382 | 316 |
| Abertawe | 10 | 9,097,000 | 49,220,000 | 431 | 91 |
| Tor-faen | 9 | 4,381,000 | 12,077,300 | 305 | 91 |
| Bro Morgannwg | 7 | 1,857,000 | 9,687,800 | 223 | 144 |
| Ynys Môn | 2 | 3,022,000 | 12,119,800 | 19 | 120 |
| **Cyfanswm** | | | | | |

Noder : Nid yw Wrecsam wedi'i gynnwys yn y tabl hwn gan nad yw'n ardal sy'n gymwys am RSA.

Roedd yr ystadegau ar gyfer y chwe mis hyd at 30.09.01 yn nodi un cynnig i brosiect yn Sir Fynwy. Erbyn hyn, cadarnhawyd y bydd y prosiect hwn yn digwydd ym Mlaenau Gwent.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

Dylai’r Pwyllgor nodi’r ffigurau cyfredol am gynigion RSA yng Nghymru ar gyfer 2001-02.

**Pwynt Cyswllt**

**Yr Is-adran Buddsoddiadau a Rheoli Corfforaethol.**